Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

ffeithiau

# Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Safleoedd Diogel

## Rhagarweiniad


Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn un o gyfres sy'n rhoi mwy o fanylion ar y pynciau amrywiol sy'n rhan o'r Cyfarwyddyd.

Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys detholiad o dempledi tenantiaeth a dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:
**www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit**



*Ar ôl aeddfedu, gwrych yw'r terfyn mwyaf diogel a deniadol – mae'r gwrych coed prifet hwn ar safle yn Coventry yn 100 mlwydd oed.*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Safleoedd Diogel: Mynd i'r afael â fandaliaeth a throseddau eraill ar safleoedd rhandiroedd

Fel arfer, mae'r rhandir yn hafan dawel mewn byd sy'n brysur fel arall, lle mae deiliaid y rhandiroedd yn treulio nifer fawr o oriau ar gyfer y pleser pur o dyfu bwyd a bod yn rhan o draddodiad sy'n ehangu. Ond o dro i dro hwyrach na fydd pethau'n digwydd fel dylen nhw: gall mân fandaliaeth, dwyn cnydau neu offer, tipio anghyfreithlon, gwefryrru, baw ci nad yw'n cael ei gasglu, neu ymddygiad bygythiol greu problem. Mae'r problemau hyn - a'u hofni - yn gallu golygu fod safle rhandiroedd yn mynd yn ddiffaith yn gynt nag unrhyw ddatblygwr.

"Mae angen ffens 12 troedfedd i gadw'r fandaliaid allan" – dyna farn a fynegir yn aml gan bwyllgorau rhandiroedd. Ond weithiau mae ffensys mawr yn denu tresmaswyr oherwydd maent yn cynnig her, ac yn awgrymu bod pethau gwerthfawr sy'n werth eu dwyn tu fewn i'r ffens. Mae ffensys uchel neu flêr yn gallu golygu bod gan randiroedd ddelwedd wael o safbwynt y cyhoedd; mae'n bosib eu dringo o hyd, ac yn golygu nad yw pobl yn gallu cadw llygaid ar y safle o'r tu allan.

Dengys tystiolaeth fod fandaliaeth yn anghyffredin ar safleoedd lle mae cyswllt rheolaidd gyda phobl yn y gymuned gyfagos yn digwydd. Os bydd pobl leol yn gwybod am safle'r rhandiroedd a'r buddion ehangach, hwyrach y byddant yn helpu gofalu amdano.

Yr un mor bwysig ydy cymuned gref ar y safle.  Bydd deiliaid rhandiroedd yn dod yn gyfarwydd gyda symudiadau ei gilydd, ac yn gwylio rhandiroedd ei gilydd. Mae lefel uchel o brysurdeb a phresenoldeb ar safle gyda thenantiaid da'n rhwystro tresmaswyr, ac yn ei wneud yn haws i adnabod pwy sy'n camddefnyddio'r safle a pham.

**Noder:** Bydd gofyn i gymdeithasau rhandiroedd ymgynghori ag awdurdod eu rhandiroedd cyn mabwysiadu unrhyw fesurau a awgrymir yn y daflen ffeithiau hon.

# Fandaliaeth gyffredinol ac atal cynnau tân bwriadol

- Ceisiwch gadw'r safle'n daclus. Bydd cael llai o lefydd i guddio yn rhwystro lladron a fandaliaid. Mae pobl ifanc yn llai tebygol o feddwl y gallan nhw chwarae o gwmpas. Fel arfer bydd pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon yn gwneud hynny lle mae sbwriel yno'n barod.
- Peidiwch â gadael deunydd o gwmpas sy'n rhwydd cynnau tân gyda nhw, e.e. pentwr o ffyn sych, paraffin neu boteli nwy mewn siediau.
- Peidiwch ganiatáu tai gwydr newydd neu un newydd yn lle hen un ar y safle; defnyddiwch bolycarbonad, plastig anhyblyg neu dwneli plastig.
- Rhowch weiren ieir fel leinin i dwneli plastig er mwyn atal slaesu'r croen.
- Gallwch dyfu planhigion dringo gyda drain dros y siediau a'r ffensys.
- Os byddwch yn ymgysylltu â'r cyfryngau, peidiwch â gadael iddyn nhw droi eich safle'n stori drychinebus. Bydd rhoi cyhoeddusrwydd i fandaliaeth/dwyn yn atal darpar ddeiliaid rhandiroedd, gan adael rhandiroedd yn wag ac yn ddelfrydol ar gyfer mwy o fandaliaeth.
- Mwy o ddeiliaid rhandiroedd ar y safle! Peidiwch â gadael i'r fandaliaeth tynnu eich sylw o'ch gwaith hyrwyddo a chyhoeddusrwydd.

# Gweithio mewn ffordd gadarnhaol gyda phobl ifanc

Nid yw pobl ifanc o reidrwydd yn mynd i safle rhandiroedd i achosi difrod. Hwyrach y byddan nhw'n chwilio am rywle i 'dreulio amser' i ffwrdd o lygaid a rheolaeth oedolion sy'n anghymeradwyo. Fel arfer bydd fandaliaeth yn digwydd pan fydd pobl ifanc yn chwarae o gwmpas, yn annog ei gilydd i brofi eu hunain i'r grŵp. Mae pobl ifanc yn dueddol o daflu cerrig, tynnu cnydau o'r ddaear a gwawdio. Hwyrach y bydd plant hŷn yn difrodi neu'n cynnau tân mewn siediau. Bydd oedolion ifainc efallai'n ymwneud â dwyn o siediau, naill ai mewn ffordd drefnus neu ar hap. Yn gyffredinol mae pobl ifanc yn cael eu beio am ddifrod i safle a achosir gan bobl eraill, e.e. deiliaid rhandiroedd sy'n dal dig yn erbyn rhywun.

Weithiau bydd deiliaid rhandiroedd yn ymateb yn ddig i bobl ifanc ar y safle,  a all eu pryfocio i wneud difrod wedyn. Mae delio gyda phobl ifanc mewn ffordd barchus a chyfarwydd yn arf rymus yn erbyn cael eich cam-drin; nid yw eu disgyblu yn cael yr un effaith. Pobl ifanc heddiw yw deiliaid rhandiroedd y dyfodol, felly gallwch greu argraff dda sy'n eu hannog i barchu'r safle a dychwelyd pan fyddan nhw'n barod i arddio.

Trwy gynnwys pobl ifanc mewn garddio ar y rhandir, gallwch roi teimlad o berchnogaeth iddyn nhw yn hytrach na'u gelyniaethu, ac mae'n anfon neges gref i'w cyfoedion. Gall hyn swnio'n naïf, ond dyma'r ateb fwyaf effeithiol ac yn werth bob ymdrech. Gall eu gwybodaeth 'strydgyfarwydd' a chysylltiadau lleol gyda phobl ifanc eraill fod yn ddefnyddiol wrth ddelio gyda throseddu ar y safle hyd yn oed. Mae 'na wastad risg sylfaenol y bydd pobl ifanc yn troi nôl at fandaliaeth (neu y bydd eu ffrindiau'n dod ac yn achosi difrod) ond gall y risg fod yn werth chweil.

Gellir ystyried fod ysgolion drws nesaf i safleoedd yn ffynhonnell fandaliaid. Yn lle hynny, gellir annog yr ysgol neu sefydliadau pobl ifanc i gymryd rhandir. Gallwch egluro sut y byddai rhandir yn cyd-fynd â'r cwricwlwm cenedlaethol, bwyta'n iach, lleihau troseddu a dinasyddiaeth.

### Troseddwyr ifainc

Gall datblygu partneriaeth ar y safle gyda'r Gwasanaeth Prawf Lleol (gweler Adnoddau) helpu troseddwyr ifainc fel rhan o'u rhaglen ailsefydlu ac yn ffynhonnell gweithwyr am ddim, a reolir ar gyfer gwaith seilwaith a gwelliannau i'r safle.

Gallwch annog deiliaid rhandiroedd i ddod i gwrdd â'r bobl ifanc - hwyrach y bydd y ddwy ochr yn dysgu rhywbeth defnyddiol. Defnyddiodd Rhandiroedd Hemplands yng Nghaerefrog troseddwyr ifainc dan oruchwyliaeth staff y Gwasanaeth Prawf i adfer rhandiroedd diffaith ac i osod ffens. "Roeddem yn ofalus am wneud hyn, ac yn poeni y byddai'r troseddu'n cynyddu mewn gwirionedd, ond penderfynwyd ei bod yn well rhoi cynnig arno na gwneud dim. Roedd y dynion ifainc wedi gweithio'n galed iawn dan oruchwyliaeth lawn staff y gwasanaeth prawf. Doedd dim problemau, ac erbyn hyn mae gennym safle llawn gyda ffens ddiogel," meddai Beryl Pallister, y Cadeirydd.




## Cynlluniau Gwylio Rhandiroedd

Mae troseddu'n digwydd ym mhob man, nid yn unig ar safleoedd rhandiroedd. Trwy weithio gyda phobl a sefydliadau eraill sy'n cael ei heffeithio gan droseddu, mae'n fwy effeithiol nag ymdrechu wrth eich hunan oherwydd bydd llais ar y cyd yn gryfach.

Yn gyntaf, mae angen cael tystiolaeth go iawn o droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y safle. Mae hyn nid yn unig yn ei wneud yn haws i ddelio gyda'r drosedd, ond mae'n gwahanu'r ffeithiau o 'hanesion y safle' a straeon.

Dylech annog deiliaid y rhandiroedd i wylio allan am ymddygiad amheus. Gallwch sefydlu rota i sicrhau presenoldeb da ar y safle yn ystod cyfnodau o droseddu. Gall trigolion lleol a phobl sy'n mynd heibio gyfrannu hefyd trwy gadw llygad ar y safle, a gallwch ddiolch iddynt efallai trwy roi cynnyrch am ddim iddyn nhw.

Gallwch roi rhif ffôn yr heddlu lleol ar hysbysfyrddau o gwmpas y safle. Dylid pwysleisio taw dim ond mewn achosion difrifol y daw'r heddlu allan. Ar gyfer galwadau nad ydynt yn argyfwng dylid defnyddio 101 - dylid ffonio 999 ar gyfer argyfwng yn unig. Eglurwch taw'r tyst/dioddefwr ddylai ffonio i gael Rhif Digwyddiad gan yr Heddlu, ac mae'n rhaid hysbysu aelod penodol o'r pwyllgor o'r rhif yma. Gallwch ychwanegu rhif yr orsaf dân agosaf os oes achos o gynnau tân yn fwriadol wedi digwydd ar y safle.

Gallwch ymuno â safleoedd rhandiroedd lleol eraill sy'n dioddef o broblemau tebyg. Byddai partneriaeth yn golygu mwy o adnoddau i drechu troseddu ac yn rhoi llais cryfach ichi wrth lobïo'r heddlu, cynghorwyr lleol neu asiantaethau eraill. Gallwch gyfuno gydag eraill sy'n dioddef oherwydd troseddu, a bydd eich lobïo'n gryfach byth, e.e. siopwyr/Siambr Fasnach, cymdeithasau trigolion a chymdeithasau tai/landlordiaid preifat.

Gofynnwch i Swyddog Atal Troseddu o'r Heddlu i ymweld i awgrymu mesurau atal troseddu penodol ar gyfer eich safle. Byddai'n fuddiol magu perthynas gadarnhaol gyda heddweision penodol sy'n gweithio yn eich ardal leol e.e. atal troseddu, heddlu cymunedol, swyddog materion ieuenctid, swyddog cymorth cymunedol. Gall cael patrol rheolaidd gan yr heddlu neu wardeniaid y gymdogaeth rhwystro troseddu. Rhoddodd safle rhandiroedd yn Bromley allweddi'r safle i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, iddyn nhw gerdded drwy'r safle bob nos Wener.

Gall arwyddion sy'n edrych yn broffesiynol, gan ddefnyddio arddull cynlluniau gwarchod Cymdogaeth i'w gosod ar bolion golau neu ffensys helpu atal troseddu hefyd trwy ddangos y byddwch yn ymdrechu i ymchwilio i unrhyw achos o droseddu. Gall arwyddion fod yn ddadleuol, felly gofalwch bod mwyafrif deiliaid rhandiroedd eich safle a'ch cymdogion lleol yn cefnogi hyn.

Gofalwch sefydlu 'Llyfr Cofnodi Digwyddiadau' i gofnodi achosion o ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol. Dylid hysbysu deiliaid rhandiroedd os nad ydynt yn eich hysbysu am broblemau,

na fedrwch wneud unrhyw beth amdanynt. Bydd y Llyfr yn adnabod patrymau ymddygiad, a gellir defnyddio hyn i dynnu sylw'r heddlu at y broblem yn ogystal ag ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol ac ati. Dylech gynnwys amser y diwrnod, disgrifiad o'r tresmaswyr a manylion y digwyddiad. Gofynnwch am Rif Digwyddiad gan yr Heddlu ar gyfer pob digwyddiad a gofnodir; wedyn gall yr Heddlu roi Rhif Trosedd ichi. Cofiwch gofnodi'r holl rifau hyn yn y llyfr er mwyn cadw cofnod dibynadwy.

### Digwyddiadau atal troseddu lleol

Mae cymdeithasau rhandiroedd yng Nghaerlŷr wedi cydweithio gyda'r heddlu i gynnal digwyddiad ar y cyd ledled y ddinas am atal troseddu ar safleoedd rhandiroedd. Yn ogystal â swyddogion Atal Troseddu, rhoddwyd cyngor ymarferol gan blanhigfeydd lleol am blannu planhigion pigog, a darparwyd arddangosfa o'r cynnyrch sydd ar gael gan gwmnïau ffensio a diogelwch.

Ar Teesside, cyfunodd cymdeithasau rhandiroedd gyda'r gwasanaeth tân lleol, masnachwyr lleol a grwpiau gwirfoddol i gynnal digwyddiad i ddelio gydag achosion o gynnau tanau bwriadol yn sgil cyfres o ymosodiadau. Arweiniodd y digwyddiad at enwi ac arestio nifer o droseddwyr, ac yn fuan wedyn cyhoeddwyd Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol iddynt.

## Delio gyda thresmaswyr

Tresmaswr yw unrhyw un ar safle rhandiroedd heb ganiatâd. Peidiwch â mynd at dresmaswr os ydych yn credu y gall arwain at risg dianghenraid ichi. Yn hytrach, dylid gwylio unrhyw weithgaredd troseddol sy'n digwydd o bell, ei gofnodi yn eich Llyfr Cofnodi Digwyddiadau a hysbysu'r Heddlu amdano.

Os byddwch yn penderfynu mynd at dresmaswr, dylech aros yn ddigynnwrf ac yn rhesymol. Peidiwch â dibynnu ar addewidion gwag o drais neu ddisgyblu. Peidiwch â defnyddio offer garddio i fygwth unrhyw un. Mae defnyddio trais yn drosedd, ar wahân i ddefnyddio grym rhesymol oherwydd bygythiad o drais uniongyrchol.

Fel arfer nid yw tresmasu yn ei hun yn drosedd y gellir ei erlyn yn y llys. Yn lle, dywedwch wrth y tresmaswr y byddwch yn hysbysu'r heddlu am achos o 'dor heddwch'. Dyma'r cyhuddiad arferol a ddefnyddir, a gall fod yn effeithiol yn enwedig wrth rwystro pobl ifanc neu bobl y mae'r heddlu yn ymwybodol ohonynt eisoes.

Os oes gennych ddeiliaid rhandiroedd penodol sy'n cael ymateb drwg i dresmaswyr, gofalwch eu bod yn ymwybodol eu bod yn creu sefyllfa beryglus. Dylech wastad rhoi hysbysiad ysgrifenedig i ddeiliaid rhanddeiliaid, er gwaethaf y ffaith ei fod yn ddibwys. Ni ddylech byth defnyddio rhybudd llafar; nid ydynt yn dystiolaeth ddibynadwy eich bod yn rheoli'r safle'n effeithiol, a hwyrach na fyddant yn cael eu derbyn fel tystiolaeth mewn achos cyfreithiol.

## Lladrad

Mae lladrad, yn debyg i fandaliaeth, yn cael ei gyflawni gan nifer fach o bobl, ac fel arfer mewn cyfres, felly dylid gweithredu'n syth ar ôl y digwyddiad cyntaf. Dylech gymryd camau synhwyrol er mwyn sicrhau nad yw'r safle'n un hawdd ei dargedu o safbwynt lladrad.

- Nid yw siediau'n cael eu dylunio i fod yn llefydd diogel i gadw pethau. Peidiwch â gadael pethau gwerthfawr ynddynt. Gallwch ystyried peidio eu cloi er mwyn cadw difrod mor isel â phosib.
- Dylech guddio offer, e.e. o dan lawr y sied, mewn 'bocs cudd' pwrpasol neu drwy eu cuddio o gwmpas y rhandir. Dylid eu rhoi mewn lleoliadau gwahanol bob yn ail.
- Gallwch rwystro lladron trwy gael offer 'anwerthadwy'. Dylid annog deiliaid rhandiroedd i farcio eu cod post a rhif eu tai ar eu holl offer; efallai y bydd yr heddlu'n gallu eu hysgythru neu ddarparu pinnau marcio priodol. Defnyddiwch baent binc llachar ar yr offer! Gall digwyddiad pan fydd pawb yn dod ynghyd i farcio eu hoffer codi hwyliau pawb.
- Os byddwch yn cael cyfres o ladradau, hwyrach y byddwch yn gallu dod o hyd i'r offer a ddygwyd mewn sêl gist ceir neu siop ail law, ac wedyn hysbysu'r heddlu.
- Os oes rhaid ichi gadw eitemau gwerthfawr mewn sied, dylech eu cadw mewn blwch/caets gyda chlo cadarn neu eu cadwyno i gylch metel mewn concrit. Dylech gofnodi rhifau cyfresol offer pŵer. Tynnwch luniau o eitemau gwerthfawr.
- Os ydych chi'n cloi eich sied, defnyddiwch sgriwiau dim dychwel ar golfachau, bolltiau wagen neu fariau pad cryf, cloeon clwt dolen-agos, neu 'fariau cloi sied' sydd ar gael yn fasnachol. Cofiwch, yn achos sied bren, y gall lleidr llifio twll neu dynnu ffenest. Hwyrach y bydd deiliaid rhandiroedd am ddefnyddio larymau ar eu siediau.
- Os bydd eich safle'n darged parhaol, gellir ystyried cael gwared ar siediau unigol, oherwydd mae safleoedd heb siediau'n cael llai o achosion fandaliaeth a lladrad. Gellir defnyddio blwch llongau er mwyn cadw offer pawb gyda'i gilydd a/neu fel cartref y caban masnachu. Hwyrach y bydd cwmni cludiant lleol yn fodlon rhoi blwch llongau ichi. Gwiriwch gyflwr y blwch cyn ei roi ar y safle, oherwydd gall weldio fod yn ddrud. Mae'n anodd torri mewn i flwch llongau sydd mewn cyflwr da. Yn aml

mae'n rhatach eu prynu yn y gaeaf.

- Peidiwch byth a defnyddio magl ffŵl - maen nhw'n anghyfreithlon.

## Rheoli Gwastraff

### Tipio anghyfreithlon

Y ffordd orau i atal tipio anghyfreithlon yw cadw safle taclus, oherwydd mae jync yn denu mwy o jync. Dylech gael gwared ar sbwriel syth ar ôl iddo ymddangos, yn enwedig yn ymyl mynedfa'r safle, mannau amlwg iawn, neu fannau sy'n hygyrch i gerbydau.

Gofynnwch i'r awdurdod lleol ddarparu arwyddion sy'n nodi'r ddeddfwriaeth a manylion dirwyon statudol ar gyfer tipio anghyfreithlon. Dylech osod arwyddion tu allan a thu fewn i'r safle. Mewn achosion difrifol iawn, gallwch gydweithio gyda Swyddog Rheoli Gwastraff yr awdurdod lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae ganddyn nhw bwerau i guddwylio. Mae tipio anghyfreithlon yn anghyfreithlon dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (1990) a Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd (2005), gydag uchafswm dirwy o £50,000 a dedfryd o garchar. Hefyd mae gan lawer o awdurdodau lleol swyddog sy'n gyfrifol am ddelio gyda thipio anghyfreithlon yn benodol.

Os bydd tipio'n digwydd yn rheolaidd, gallwch ofyn i drigolion lleol a deiliaid rhandiroedd dynnu ffotograff o'r unigolyn cyfrifol, neu gofnodi rhifau ceir perthnasol (Mae DDA 1990 yn caniatáu erlyn perchennog car ar gyfer tipio anghyfreithlon hyd yn oed os benthycwyd y cerbyd i rywun arall). Hefyd dylid cofnodi digwyddiadau o dipio anghyfreithlon yn Llyfr Cofnodi Digwyddiadau eich safle.

### Gwastraff deiliaid rhandiroedd

Efallai y bydd ardaloedd dynodedig ar gyfer sbwriel y safle'n destun diffyg rheolaeth, naill ai oherwydd deiliaid rhandiroedd neu unigolion sy'n tipio'n anghyfreithlon. Gellir annog deiliaid rhandiroedd i ystyried sut byddan nhw'n cael gwared ar eitem cyn dod â hi i'r safle, ac ni ddylid annog celcio. Gallwch gyfarwyddo deiliaid rhandiroedd i gadw unrhyw sbwriel yn daclus ar eu safle eu hunain nes trefnu ei glirio (gellir cynnwys datganiad i'r perwyl hwn yn y cytundeb tenantiaeth). Gellir trafod system fwy effeithiol i gael gwared ar sbwriel gyda'r cyngor neu ofyn i ddeiliaid rhandiroedd i fynd â sbwriel adref gyda nhw. Os bydd y cyngor yn darparu sgip, dylid ei lenwi'n gyflym ac mewn ffordd effeithiol, cyn bydd y cymdogion yn gwneud hynny.

## Troseddau eraill

### Cŵn

Yn aml mae baw ci yn broblem ar gyfer safleoedd gyda hawliau tramwy cyhoeddus yn rhedeg trwyddynt. Dan Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) (1996) mae methu clirio fyny ar ôl ci, yn drosedd. Gofynnwch i'r awdurdod lleol gosod biniau cŵn a hysbysiadau am gosbau. Fel arall, gallwch ddarparu cyflenwad o fagiau plastig priodol i annog perchnogion cŵn i fynd â'u gwastraff adref gyda nhw. Mae perchnogion cŵn yn fwy tebygol o wneud hyn mewn ardal sydd eisoes yn rhydd rhag baw ci.

Byddwch yn gyfeillgar tuag at y cŵn - mae'r perchnogion yn fwy tebygol o ymddwyn yn dda. Rhowch ddanteithfwyd i'r ci (gyda chaniatâd y perchennog) a hwyrach y bydd y perchennog yn fodlon ymuno â'ch Cynllun Gwylio Rhandiroedd!

Y dewis olaf un fyddai hysbysiad sy'n nodi y byddwch yn tynnu ffotograffau o unigolion sy'n anwybyddu hyn ac y byddwch yn danfon y lluniau at yr heddlu – hwyrach y bydd yn atal y broblem rhag gwaethygu.

### Pobl sy'n defnyddio cyffuriau a gweithwyr rhyw

Mae'r bobl yma'n dueddol o ddefnyddio safle yn ystod y nos, felly anaml iawn maen nhw'n cael eu gweld. Nid yw'n bosib dweud yr un peth am nodwyddau a ddefnyddiwyd, bagiau sylweddau neu gondomau. Dylid cofnodi ac adrodd digwyddiadau i'r heddlu a'r cyngor lleol, a threfnu cwrdd â nhw a chynrychiolydd eich Tîm Gweithredu ar Gyffuriau lleol. Gall swyddog rheoli gwastraff y cyngor lleol roi cyngor ar gael gwared ar nodwyddau a ddefnyddiwyd. Mae gan rai cynghorau tîm ymateb cyflym i gael gwared ar y math yma o sbwriel.

## Deiliaid Rhandiroedd sy'n achosi problem

Weithiau bydd unigolion yn rhentu rhandir i'w ddefnyddio fel storfa sbwriel preifat, i gadw deunyddiau busnes neu nwyddau a ddygwyd, neu i fridio cŵn. Hwyrach y bydd rhai deiliaid rhandiroedd yn trin y tir mewn ffordd briodol, ond ar y cyfan maent yn 'bobl anodd' i'r pwyllgor ddelio gyda nhw neu i ddeiliaid rhandiroedd eraill arddio ochr yn ochr â nhw o ddydd i ddydd.

### Rheoli troi allan

Mewn achosion go iawn o ymddygiad amhriodol, ac ar ôl rhoi'r nifer briodol o rybuddion a thrafodaethau, hwyrach mai troi'r unigolyn allan yw'r unig ateb, gan ddefnyddio'r gweithdrefnau cywir o safbwynt gwaith papur.

Os taw'r awdurdod lleol sy'n rheoli'r safle'n uniongyrchol, hwyrach na fydd gan y gymdeithas (os oes un) y grym i weithredu. Yn lle, bydd angen ysgrifennu at yr awdurdod i dynnu eu sylw at yr holl broblemau.

Dylai cymdeithasau sydd â chyfrifoldebau rheoli datganoledig ofalu fod y cytundebau a rheolau tenantiaeth yn cynnwys cymalau sy'n delio gydag 'ymddygiad gwrthgymdeithasol', 'dwyn anfri ar y safle' a 'niweidio'r berthynas gyda'r gymuned leol'. Wedyn gall y gymdeithas troi unigolyn allan am bron unrhyw beth sy'n achosi problem ddifrifol. Hefyd gallwch gynnwys cymal ynglŷn â sicrhau 'nad

gallu gweithredu heb gofnodion o brosesau rheoli'r gymdeithas.

### Aros yn ddigynnwrf

Gofalwch fod rhywun gyda chi wrth fynd i siarad â deiliaid rhandiroedd. Hwyrach y byddant yn ymddwyn mewn ffordd ymosodol neu fygythiol. Wrth fynd i siarad gyda nhw, arhoswch yn ddigynnwrf, a gwrando ar yr hyn sydd ganddo/ganddi i'w ddweud heb dorri ar draws neu godi eich llais. Peidiwch ag ymateb i'r her os bydd yr unigolyn yn eich cythruddo; cyfrwch i ddeg yn eich pen yn lle. Peidiwch byth ceisio siarad gyda rhywun sy'n feddw neu ar gyffuriau. Os oes gan unigolyn angen iechyd meddwl neu'n cael trafferth mynegi ei hun, hwyrach mai'r opsiwn gorau yw siarad gydag ef/hi trwy rywun mae'n ymddiried ynddo.

Dylech gysylltu â'r heddlu'n unig os oes rhaid ichi, oherwydd gall hyn wneud y broblem yn waeth. Cyn defnyddio'r heddlu, dywedwch wrth yr unigolyn eich bod yn bwriadu gwneud hyn, oherwydd yn aml bydd yn atal y broblem. Dysgwch fyw (ac ymdopi) gydag ymddygiad ecsentrig unigolion os nad yw'n ymddwyn mewn ffordd fygythiol neu ymosodol: yn aml iawn, maen nhw'n troi allan i fod yn 'gymeriadau lleol' diddorol.

## Pwyntiau i'w hystyried wrth ddylunio ffin eich rhandir

- • Pa broblemau y mae angen delio gyda nhw? Atal cyfres o ddigwyddiadau fandaliaeth? Atal cymdogion rhag ymestyn eu gerddi? Gwella delwedd y safle? Bydd eich ffordd o ateb y cwestiwn hwn yn effeithio ar eich dewisiadau.
- Edrychwch ar eich safle'n ofalus. Ydy'r holl broblemau'n deillio o un darn o'r ffin, e.e. lle mae mynedfa i gerddwyr, sydd o'r golwg neu gerllaw ale dywyll neu barc? Os ydy'ch arian yn brin,

## Cymharu opsiynau terfyn gwahanol ac esiampl o gostau fesul metr llinol

Nid yw'r prisiau yn cynnwys TAW, ac maent yn gywir adeg eu cyhoeddi.

### Gwrych drain

- Y ffin anoddaf i'w drechu ar ôl aeddfedu, ac un o'r rhai rhataf i'w blannu.
- Ffin ddeniadol iawn a da iawn ar gyfer bywyd gwyllt.
- Yn gallu cynnig mynediad mewn man gwan (bwlch) ac ni fydd yn effeithiol nes iddo dyfu'n llawn. Gellir ei ddefnyddio ar y cyd â ffens; a thynnu'r ffens yn ddiweddarach.
- Bydd angen ei dorri'n rheolaidd i atal iddo ordyfu o ran uchder/lled
- Y dewis arferol fyddai gwrych cymysg o rywogaethau cynhenid (gorau ar gyfer bywyd gwyllt) sef draenen wen, draenen ddu, rhosyn y cŵn. Mae'n cymryd 2 - 3 blynedd i'r ddraenen wen fod yn effeithiol, a gellir eu plannu fel rhes ddwbl ar gyfer mwy o ddiogelwch. Hefyd mae'r tân-ddraen yn boblogaidd.
- Bydd y gwrych yn tyfu'n arafach os bydd mewn cysgod. Mae coed celyn yn dioddef cysgod, ond yn araf iawn yn tyfu.
- Peidiwch â defnyddio rhywogaethau drain os bydd y gwrych yn cael ei effeithio gan halen adeg graeanu'r ffyrdd. Mae helygen y môr yn gallu gwrthsefyll halen.
- Os ydych am ddefnyddio tractor gyda dyrnflaidd i dorri'r gwrych, gofalwch fod y llwybr mynediad ar hyd y ffin yn ddigon llydan. Fel arall, bydd angen peiriant tocio gwrych arnoch, ysgol, a hyfforddiant priodol.
- Mae gwrychoedd yn gallu dal sbwriel, sydd yn anodd cael gwared arno wedyn.
- Ffordd rad iawn o blannu gwrych yw defnyddio planhigion gwreiddiau heb bridd, ond gellir eu prynu a'u plannu adeg y flwyddyn pan maen nhw ynghwsg (Tachwedd - Mawrth). Er mwyn plannu gwrych rhes ddwbl, (igam-ogam) bydd angen 5 - 7 planhigyn fesul metr. Bydd y gost tua 80c y planhigyn (ac fel arfer maen nhw'n cael eu gwerthu mewn bwndeli o 25) ar gyfer stoc blwydd oed heb bridd, gydag uchder o ryw 40 - 60 cm.

### Weiren Bigog

- Ni fyddem yn argymell hyn oherwydd nifer o risgiau atebolrwydd.
- Ni chaniateir wrth ochr tramwy cyhoeddus; gwiriwch yr uchder cyfreithiol a ganiateir gyda'r adran gynllunio.
- Gellir defnyddio rheiliau rasel (h.y. pigau) ar ben gatiau dros 6 troedfedd (nid weiren rasel yw hyn).
- Gallwch roi cynnig ar baent sy'n atal dringo ar ben gatiau yn lle weiren bigog (tebyg i dar).
- Hwyrach y bydd angen gosod arwyddion rhybudd.

# Cymharu opsiynau terfyn gwahanol ac esiampl o gostau fesul metr llinol (parhad)

## Gwrych 'tyfu eich hun'

- Mae tyfu mwyar duon dros ffens dolen gadwyn neu dail poeth o gwmpas terfyn y safle yn ffordd dda i rwystro tresmasu.
- Maen nhw'n dda ar gyfer bywyd gwyllt ac yn rhad
- Ymwthiol - mae angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd, anodd rhagweld tyfiant ac os nad yw'n cael ei gynnal yn awgrymu safle diffaith.
- Dim cost.

## Ffens palis (ffens metel, pigog a ddefnyddir ar gyfer rheilffyrdd ac ati)

- Y dewis iawn ar gyfer diogelwch uchel ar y safle, ond nid yw'n amhosib eu trechu - ar un safle, tynnwyd adran gyfan i lawr, a dygwyd 2 sied trwy'r twll! Hefyd mae'n bosib dringo drosto.
- Y dewis gorau yw ffens gyda thri phig, heb rybedi.
- Drud, ond mae'n para am oes ac ychydig iawn o waith cynnal a chadw arno.
- Yn debyg i 'Fort Knox'; hwyrach na fydd cymdogion yn hapus iawn – ychydig yn well os caiff ei baentio neu ei gyfuno gyda gwrych.
- Gofynnwch am gael cefn y ffens yn wynebu'r safle, mae'n fwy effeithiol felly.
- Cost - £30-£60 y metr, yn dibynnu ar uchder a gorffeniad. Er enghraifft, byddai ffens palis 2m o uchder gyda thri phig, a gorffeniad galfanedig (heb baent) yn costio rhyw £30 y metr + TAW.

## Ffensio 'gwneud eich hun'

- Fel arfer yn flêr ac yn mynd allan o reolaeth
- Dylech osgoi metel rhychog, asbestos, coed sgrap
- Hwyrach y bydd cwmnïau sy'n gwerthu drysau garejys yn fodlon dod â hen ddrysau ichi; maen nhw'n dda i greu eich ffens eich hun, sy'n gadarn.
- Dim cost.

## Ffens bolion coed castan

- Ffens hawdd ei gosod, ond nid yw'n addas i safleoedd gyda phroblemau fandaliaeth difrifol. Delfrydol ar gyfer llinellau ffensio cromlin ac yn creu safle hynod weledol.
- Mwy effeithiol o'i ddefnyddio gyda gwrych pigog.
- Angen gosod ffens newydd bob 5 mlynedd.
- Bydd y gost yn dibynnu ar uchder y ffens. Er enghraifft, byddai ffens 6 troedfedd o uchder gyda physt bob 2 fetr yn costio rhyw £7-8 y metr, tra bydd ffens 4 troedfedd o uchder yn costio rhyw £4-5 y metr.

yw unrhyw weithgaredd troseddol yn digwydd ar y safle' i ddelio gyda chadw eiddo a ddygwyd, tyfu canabis ac ati. Ni ddylid camddefnyddio'r pwerau hyn. Dylid cynnwys diffiniad manwl o broblem ddifrifol a chael hyd dystiolaeth gadarn.

## Enghraifft o weithdrefn troi allan dda

- Cyhoeddi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol gydag amserlen benodol i gael gwared ar y sbwriel
- Rhybudd terfynol ac amserlen benodol eto
- Hysbysiad troi allan gydag amserlen benodol i adael y rhandir, cael gwared ar eiddo a dychwelyd yr allweddi
- Mae'n rhaid cadw copïau o bob llythyr/ffurflen. Mae'n werth defnyddio post cofrestredig yn enwedig ar gyfer y llythyr troi allan terfynol.

Trwy ddilyn y broses hon, os bydd unrhyw broblemau pellach yn sgil troi'r unigolyn allan, gallwch ei drosglwyddo i'r heddlu, sy'n fodlon delio gyda phroblem troi allan, sydd yn weddol syml. Byddan nhw'n gallu rhybuddio'r unigolyn dan sylw y gall cael ei arestio am 'dor heddwch' a delio gyda'r achos o'r fan yna. Eto, dylid cofnodi ac adrodd pob digwyddiad/trosedd gyda rhifau cyfeirnod perthnasol yr heddlu.

## Nodyn pwysig i safleoedd dan reolaeth ddatganoledig

Mae cymdeithas rheoli datganoledig yn gweithredu fel asiant ar ran awdurdod y rhandiroedd, ac felly yn gyfrifol am gadw cofnodion cywir. Dylid cadw cofnodion y safle mewn trefn dda, gan gadw copïau o bopeth. Peidiwch â defnyddio rhybuddion llafar - dylech wastad anfon cadarnhad ysgrifenedig ar ôl trafodaethau llafar. Os gwneir cwyn ffurfiol i awdurdod y rhandiroedd am eich dulliau rheoli'r safle, bydd angen ichi allu dangos bod gennych gofnodion trwyadl, a'ch bod yn gweithio'n unol â thelerau'r brydles. Yn ogystal, ni fydd yr heddlu'n

fedrwch chi ddefnyddio math arall o ffin neu ffens ratach/ byrrach ar yr ochrau heb y broblem, hwyrach y rhai heb fynediad i'r cyhoedd oherwydd rhes o dai, neu mewn lleoliad mwy gweladwy?

- Oes gennych fap o'r safle sy'n dangos y ffiniau cywir? Gwiriwch gyda'r gwasanaethau rhandiroedd neu'r adran gynllunio i weld map o'r weithred. Nid oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol arnynt i'w ddangos ichi, ond gall helpu egluro union ddiffiniad o unrhyw ffiniau sydd dan amheuaeth.
- Gellir ymgynghori â'r cymdogion; hwyrach y byddan nhw'n barod i rannu'r gost os maen nhw hefyd yn dioddef oherwydd problem fandaliaeth y safle. Ar y llaw arall, hwyrach na fyddan nhw'n hapus os gosodir ffens 10 troedfedd yn lle ffens isel a golygfa braf. Hwyrach y bydd angen tawelu meddyliau perchnogion tai cyfagos nad ydych yn ymyrryd â'u ffiniau nhw.
- Ydych chi wedi cael caniatâd eich cyngor, a mewnbwn arbenigol gan yr awdurdod cynllunio lleol, cwmnïau ffensio, yr heddlu neu arbenigwyr eraill? Fel arfer, ni fydd angen caniatâd cynllunio os bydd y ffens yn uchder o 1.8m neu lai, ond dylid gwirio'r rheoliadau cynllunio lleol gyda'r adran gynllunio.
- Faint o waith cynnal a chadw (yn y tymor canolig ac yn hirdymor) fydd ei angen ar y ffens, a fedrwch chi fforddio'r holl gostau? Bydd angen archwilio ffens fetel bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Dylid ymchwilio i'r ffensys yn ofalus, oherwydd mae llawer o fodelau gwahanol ar y farchnad.
- Wrth godi'r terfyn newydd, i ba raddau bydd y gwaith yn amharu ar y safle? Oes angen gosod bariau dros dro i ddiogelu eich asedau neu gynyddu gwerth eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus? Fydd eich cymdogion yn hapus tra bydd y gwaith yn digwydd? Ydych chi wedi hysbysu'ch cymdogion a deiliaid y rhandiroedd ymlaen llaw?
- Ydych chi wedi cael o leiaf 3 dyfynbris gan gontractwyr gwahanol? Hwyrach y bydd gan yr awdurdod lleol restr o gontractwyr cymeradwy, neu efallai y gallwch ddefnyddio eu contractwyr nhw am bris llai. Ydych chi wedi gweld esiamplau o'r deunyddiau maen nhw'n bwriadu eu defnyddio? Fedrwch chi leihau'r costau trwy helpu gyda'r gwaith gosod neu ddefnyddio cynllun y gwasanaeth prawf?

### Y Giât

Yn aml 'Man gwan' safle sy'n ddiogel fel arall: mae pobl yn gadael y giât ar agor, mae'r allweddi yn y clo, mae deiliaid rhandiroedd a gafodd eu troi allan yn cadw allwedd, neu mae pobl tu allan yn cael copi o'r allwedd. Gall giat sydd ar glo fod yn fwy o drafferth na gwerth. Os byddwch yn penderfynu cael giat, gallwch leihau'r problemau hyn trwy ddilyn y camau canlynol:

- Defnyddiwch system ar gyfer Allweddi Cofrestredig.  Saer cloeon penodol yn unig sy'n gallu torri allweddi newydd, ar gais unigolyn dynodedig gyda'r gwaith papur angenrheidiol.
- Mae cloeon mortais yn well na chloeon clap.
- Dylai deiliaid rhandiroedd dalu blaendal sylweddol am allwedd e.e. £30.
- Dylai'r cytundeb neu reolau tenantiaeth gynnwys adran ar 'rheolau allweddi'.
- Gofynnwch gyngor saer cloeon dibynadwy, e.e. un sy'n cael ei ddefnyddio gan eich cyngor lleol.

Yn Barnet, gosodwyd 'giât mochyn' ar safle, oedd yn caniatáu mynediad i'r safle i'r cyhoedd (er mwyn i bobl leol fwynhau'r rhandiroedd) ond er mwyn atal dwyn strimwyr ac offer mawr arall.

## Codi arian

Gofynnwch i'r heddlu, gwasanaeth tân neu'r cyngor lleol pa grantiau sydd ar gael i atal troseddu a chynnau tannau bwriadol e.e. ar gyfer arwyddion, ffensys ac offer ysgythru.

Bydd gan geisiadau sy'n arwain at fuddion lluosog gwell cyfle o lwyddo, e.e. gwrych ar gyfer bywyd gwyllt, mwy o ddiogelwch i unigolion agored i niwed (plant, yr henoed, anghenion arbennig), neu gynlluniau i ymgysylltu â throseddwyr ifainc/ darpar fandaliaid. Hefyd gellir cynnwys ffensio weithiau wrth geisio am rywbeth arall, oherwydd mae'n diogelu'r buddsoddiad.

## Adnoddau

### Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SF&G)

**Ffon:** 0117 9231800
**Ebost:** admin@farmgarden.org.uk
**Wefan:** www.farmgarden.org.uk

Elusen gofrestredig sy'n cefnogi, yn cynrychioli ac yn hyrwyddo ffermydd, gerddi cymunedol, ffermydd gofal, rhandiroedd a mannau gwyrdd eraill a reolir gan y gymuned, er mwyn i gymunedau lleol dyfu. Cynllun yswiriant gyda disgownt i aelodau.

### Y Gymdeithas Randiroedd (NAS)

**Ffon:** 01536 266576
**Ebost:** natsoc@nsalg.org.uk
**Wefan:** www.nsalg.org.uk

Corff cenedlaethol sy'n cynrychioli rhandiroedd yn y DU.  Mae aelodau'n cynnwys cymdeithasau, a ffederasiynau rhandiroedd, ysgolion, cynghorau, landlordiaid ac unigolion. Cynllun yswiriant gyda disgownt i aelodau.

### Ymddiriedolaeth Amaethgoedwigaeth

**Ffon:** 01803 840 776
**Ebost:**  mail@agroforestry.co.uk
**Wefan:** www.agroforestry.co.uk

Cyfeirlyfr o rywogaethau tyfu gwrych. Yn cyflenwi planhigion gwrychoedd a phlanhigion.

### Cymdeithas Genedlaethol Gweithredu Gwirfoddol a Chymunedol

**Ffon:** 0114 278 6636
**Ebost:** navca@navca.org.uk
**Wefan:** www.navca.org.uk

Cyngor a chefnogaeth i grwpiau cymunedol.

### Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth (TCV)

**Ffon:** 01302 388 883
**Ebost:** information@tcv.org.uk
**Wefan:** www.tcv.org.uk

Cyhoeddiadau'n cynnwys llawlyfrau ffensio a thyfu gwrych. Cyrsiau ar blygu gwrych a ffensio.

### National Probation Service

I gael manylion eich cyswllt lleol yng Nghymru a Lloegr, ewch at: **www.gov.uk/government/publications/national-probation-service-england-and-wales-divisions-map**

## Diogelwch i randiroedd

**www.fareham.gov.uk/PDF/safety/AllotmentWatchleaflet.pdf**

**www.nsalg.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/FHQ-Nat-Allotments-draft-8-7-16.pdf**

## Gweithio'n gadarnhaol gyda phobl ifanc

**www.catch-22.org.uk**

Rheoli troseddwyr, ymyriadau i leihau trais, gwasanaethau ailsefydlu ac ar gyfer dioddefwyr. Yn gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth yn y ddalfa ac yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar feithrin cysylltiadau cadarn, cyson sy'n ennyn ffydd i helpu datgloi potensial a gwneud newidiadau positif i'w bywydau.

**https://inspired.com**

Elusen ledled y DU ym maes gwirfoddoli i bobl ifanc sy'n rhoi cyfleoedd gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol i bobl ifanc 14 - 30 oed.

**www.princes-trust.org.uk**

Elusen i bobl ifanc sy'n helpu ieuenctid 11 – 30 oed gael swyddi, addysg a hyfforddiant.

**www.gov.uk/youth-offending-team**

Yn rhedeg rhaglenni amrywiol sy'n gweithio i gadw bobl ifanc i ffwrdd o droseddu. Mae'r rhaglenni'n cael eu rhedeg ar y cyd â chymunedau lleol ac yn gallu cynnwys rhieni a theuluoedd.

**www.actionforchildren.org.uk**

Yn cynnig gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a chymorth teuluol dwys i helpu pobl ifanc sydd yn gysylltiedig â neu mewn perygl o droseddu.

Cynhyrchwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Ionawr 2021
Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys deunydd a gyhoeddwyd gyntaf gan y Fenter Adfywiohandiroedd (ARI) 2010

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

**Ffon:** 02920 225 942 /**Ebost:** wales@farmgarden.org.uk
**Website:** www.farmgarden.org.uk